# Chwilfrydedd Proffesiynol

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol

Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- George: cael ei adael ar ei ben ei hun, mewn clytiau, wedi cleisio, wedi blino – nosweithiau hwyr, ond heb siarad ag ef (yn cysgu).
- Beth: absennol, yn amharod i ddychwelyd gartref, hunan-niweidio wedi'i nodi – ond heb gysylltu â hi'n uniongyrchol.
- Roedd naratif Kate ("bwlio yn yr ysgol", "person ifanc gwrthryfelgar") yn bwrw cysgod dros brofiadau plant.
- Teganau/cartref glân yn camarwain barn broffesiynol.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth gafodd ei golli wrth beidio siarad â George?
- Sut mae sicrhau nad yw lleisiau'r plant yn cael eu boddi gan y rhieni?

### Gweithgaredd

**Chwarae rôl:** esboniwch i riant gwrthwynebus pam mae'n rhaid gweld/siarad â phlant.

## 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Mae George yn parhau i fod mewn perygl o gael ei esgeuluso: clytiau yn oedran ysgol, cleisiau heb eu harchwilio.
- Mae hunan-niweidio ac arferion cilio Beth mewn perygl o waethygu os na chânt eu datrys.
- Mae peidio â siarad â nhw'n atgyfnerthu anweledigrwydd a bod yn ddi-rym

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth sy'n digwydd pan nad yw llais plentyn yn cael ei glywed?
- Sut allai arferion cilio Beth waethygu?
- Sut allai hyn effeithio ar ei ffydd mewn oedolion a gofyn am gymorth yn y dyfodol?

### Gweithgaredd

**Matrics risg:** categoreiddio risgiau (corfforol, emosiynol, esgeulustod) ar gyfer George a Beth.

## 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Rhaid i weithwyr cymdeithasol weld plant a siarad â nhw bob amser.
- Roedd esgusodion rhieni/tynnu sylw (ewinedd, sgwrs cappuccino) yn mynd â Rachel ar drywydd gwahanol i ddiogelu.
- Dylid bod wedi dihuno George; dylid bod wedi cysylltu â Beth yn uniongyrchol.
- Mae chwilfrydedd proffesiynol yn golygu herio esboniadau, nid eu derbyn ar yr olwg gyntaf.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa weithdrefn sy'n sicrhau bod plant bob amser yn cael eu gweld ac y siaredir â nhw?
- Sut ydych chi'n cydbwyso sensitifrwydd â phendantrwydd pan fydd rhiant yn gwrthwynebu ymgysylltu?
- Sut all gweithwyr ganolbwyntio pan fydd pethau sy'n tynnu'r sylw?

### Gweithgaredd

**Senario:** mae rhieni'n mynnu bod y plentyn yn cysgu – ymarferwch fynnu'n garedig ond yn gadarn.

## 4 Myfyrdodau proffesiynol

- Roedd Rachel yn teimlo'n anghysurus ond gohiriodd weithredu – cyfle a gollwyd.
- Nid yw nodiadau yn unig yn ddigon heb gamau diogelu prydlon.
- Myfyrdod: mae anghysur yn aml yn arwydd o risg a dylai sbarduno chwilfrydedd ar unwaith.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Beth wnaeth Rachel ei golli?
- Sut ddylai goruchwyliaeth gefnogi staff yn y camau hyn?

### Gweithgaredd

Rhestrwch yr holl "faneri coch" a welodd Rachel → trefnwch nhw yn ôl y rhai y gweithredwyd arnynt yn erbyn y rhai a gollwyd.

## 5 Penblethau moesegol ac emosiynol

- Pwysau i gynnal perthynas â rhieni yn erbyn dyletswydd i ddiogelu.
- Anhawster emosiynol wrth herio esgusodion credadwy.
- Ofn bod yn ymwthiol wrth ddeffro plentyn neu ymchwilio ymhellach.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa emosiynau allai atal gweithiwr rhag gweithredu?
- Sut mae cydbwyso parch at rieni â blaenoriaethu plant?

### Gweithgaredd

**Dadl:** "Mae'n well mentro digio rhiant na pheidio â gweld plentyn".

## 6 Dysgu ymarferol

- Rhaid gweld plant a siarad â nhw bob amser.
- Peidiwch â gadael i agweddau cadarnhaol arwynebol roi tawelwch meddwl i chi.
- Gall tynnu sylw gan rieni fod yn fwriadol.
- Anghysur = baner goch → gweithredwch nawr, nid wedyn.
- Mae goruchwyliaeth/myfyrio yn meithrin hyder mewn chwilfrydedd.

### Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth

- Pa gamau ymarferol fyddai wedi gwella ymweliad Rachel?
- Sut gellir ymgorffori chwilfrydedd proffesiynol mewn ymarfer bob dydd?

### Gweithgaredd/chwarae rôl

Ail-luniwch ymweliad Rachel a rhowch ddewisiadau chwilfrydedd proffesiynol eraill (deffro George, cysylltu â Beth).

## Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – dyletswydd i roi gwybod am blant sydd mewn perygl.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – gofyniad i weld plant; canllawiau ar gyfer ymweliadau cartref.
- **Deddf Plant 1989 (yn gymwys yng Nghymru)** – ymholiadau adran 47 pan yr amheuir bod plant mewn perygl.
- **Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant (Cymru)** – thema gyson: plant na chafodd eu gweld ac na siaradwyd â nhw'n uniongyrchol.

# Chwilfrydedd Proffesiynol

**Rhan B: Taflen**

Gwasanaeth
Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

**Meithrin chwilfrydedd proffesiynol; peidiwch byth â gadael i naratifau rhieni ddisodli lleisiau'r plant.**

### Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Ni chafodd George ei weld; llwyddodd Beth i gilio; cafodd eu lleisiau eu colli.
- Siaradwch â phlant yn uniongyrchol bob amser.

### Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Risgiau: methu â phennu anghenion y naill blentyn neu'r llall neu flaenoriaethu eu hanghenion mewn ffordd amserol.
- Methu â chael eich clywed, teimlo'n anweledig ac yn ddi-rym.
- Colli ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol; risg o waethygu neu gilio.

### Diogelu a dyletswydd gofal

- Dylid bob amser gweld a siarad â'r ddau blentyn yn uniongyrchol.
- Ystyried y potensial am niwed sylweddol - esgeulustod, emosiynol neu gorfforol.
- Nodi a chofnodi ffactorau amddiffynnol.
- Bod yn glir o ran cyfrifoldebau rhieni (rhieni'r ddau blentyn, gan gynnwys y tad(au)).
- Chwilfrydedd proffesiynol: herio esboniadau a sicrhau mai diogelwch y plant yw'r flaenoriaeth.

### Myfyrdodau proffesiynol

- Mae anghysur yn rhoi data i ni – gweithredwch arno.
- Rhaid i'r nodiadau gyd-fynd â chamau diogelu di-oed.

### Penblethau Moesegol ac Emosiynol

- Perthynas yn erbyn dyletswydd i ddiogelu.
- Gwell mentro digio rhiant na methu niwed.

### Dysgu ymarferol

1. Sicrhewch eich bod yn gweld/siarad â phob plentyn bob amser.
2. Peidiwch â gadael i'r modd y mae rhywun yn ymddangos roi tawelwch meddwl i chi.
3. Heriwch naratifau rhieni.
4. Gweithredwch ar anghysur proffesiynol.
5. Ceisiwch oruchwyliaeth fyfyriol ar unwaith.

### Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – dyletswydd i roi gwybod am blant sydd mewn perygl.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – gofyniad i weld plant; canllawiau ar gyfer ymweliadau cartref.
- **Deddf Plant 1989 (yn gymwys yng Nghymru)** – ymholiadau adran 47 lle mae amheuaeth bod plant mewn perygl.
- **Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant (Cymru)** – thema gyson: plant na chafodd eu gweld ac na siaradwyd â nhw'n uniongyrchol.